# Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

**2016 dccc 1**

## RHAN 3

DARPARIAETHAU SY'N GYMWYS I BOB CONTRACT MEDDIANNAETH

## PENNOD 2

DARPARU GWYBODAETH

*Datganiad ysgrifenedig o'r contract*

### 37 Datganiad anghywir: cais deiliad y contract i'r llys

(1) Caiff deiliad y contract o dan gontract meddiannaeth wneud cais i'r llys am ddatganiad bod datganiad ysgrifenedig o'r contract—

(a) yn nodi un neu ragor o delerau'r contract yn anghywir neu'n nodi teler nad oes iddo unrhyw effaith,

(b) yn datgan yn anghywir nad yw darpariaeth sylfaenol sy'n gymwys i'r contract wedi ei hymgorffori fel un o delerau'r contract oherwydd adran 20(1) neu 21(2),

(c) yn datgan yn anghywir nad yw darpariaeth atodol sy'n gymwys i'r contract wedi ei hymgorffori fel un o delerau'r contract oherwydd adran 21(2), 24(1) neu 25(2), neu

(d) yn nodi teler nad yw'n un o delerau'r contract.

(2) Ond nid yw datganiad ysgrifenedig yn anghywir ond am nad yw'n nodi teler a amrywiwyd yn unol â'r contract neu drwy neu o ganlyniad i ddeddfiad, os rhoddwyd—

(a) datganiad ysgrifenedig o'r teler a amrywiwyd yn unol ag adran 109, 128 neu 136, neu

(b) hysbysiad o'r amrywiad yn unol ag adran 104, 105(2) i (4) neu 107(1)(b) a (2) i (6) (amrywio contractau diogel) neu adran 123 **[**[F1]neu 124(2) i (4)**]** (amrywio contractau safonol cyfnodol),

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, Adran 37 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 04 Hydref 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

oni bai bod y datganiad wedi ei roi o dan adran 31(2) neu (4) ar ôl i unrhyw amrywiad o'r fath i deler gael effaith.

(3) Ni chaiff deiliad y contract wneud cais i'r llys o dan is-adran (1) cyn diwedd y cyfnod o 14 diwrnod sy'n dechrau—

(a) os oedd yn ofynnol i'r landlord roi datganiad ysgrifenedig o dan adran 31(1), â'r dyddiad meddiannu;

(b) os oedd yn ofynnol i'r landlord roi datganiad ysgrifenedig o dan adran 31(2), â'r diwrnod y rhoddodd y landlord y datganiad ysgrifenedig i ddeiliad newydd y contract;

(c) os oedd yn ofynnol i'r landlord roi datganiad ysgrifenedig pellach o dan adran 31(4) i (6), â diwrnod cyntaf y cyfnod a grybwyllir yn adran 31(6).

(4) Os yw'r llys yn fodlon bod y sail yn is-adran (1)(a), (1)(b) neu (1)(c) wedi ei phrofi, caiff wneud datganiad sy'n nodi'r teler cywir.

(5) Os yw'r llys yn fodlon bod y sail yn is-adran (1)(d) wedi ei phrofi, caiff wneud datganiad nad yw'r teler yn un o delerau'r contract.

(6) Caiff y llys—

(a) cysylltu datganiad ysgrifenedig o'r contract meddiannaeth i'w ddatganiad, neu

(b) gorchymyn i'r landlord roi datganiad ysgrifenedig wedi ei gywiro o'r contract i ddeiliad y contract.

(7) Os yw'r llys yn fodlon bod y datganiad ysgrifenedig yn anghywir fel y disgrifir yn is-adran (1) oherwydd diffyg bwriadol ar ran y landlord, caiff orchymyn i'r landlord dalu tâl digolledu i ddeiliad y contract o dan adran 87.

(8) Mae'r tâl digolledu yn daladwy ar gyfer y cyfnod, heb fod yn hwy na dau fis, a bennir gan y llys; a chaiff y llys orchymyn i'r landlord dalu llog ar unrhyw raddfa ac wedi ei gyfrifo mewn unrhyw fodd sy'n briodol yn ei farn.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn a. 37(2)(b) wedi eu hamnewid (7.6.2021) gan Deddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021 (asc 3), a. 19(3), **Atod. 6 para. 5**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 37 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 257(2)**

**I2** A. 37 mewn grym ar 1.12.2022 gan O.S. 2022/906, **ergl. 2**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, Adran 37 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 04 Hydref 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

- specified provision(s) savings for amendments by 2018 anaw 1, s. 6, Sch. 6 by S.I. 2019/110 reg. 5

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**
Whole provisions yet to be inserted into this Act (including any effects on those provisions):

- s. 20(3)(ma) inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 4(2)
- s. 135(2)(ia) inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 4(3)
- s. 186A-186C inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 4(1)
- s. 198A inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 5